

Penderfyniadau

Is-bwyllgor Trwyddedu

I BOB AELOD CYNGOR DINAS CASNEWYDD

Atodlen Penderfyniadau a gyhoeddwyd ar 6 Awst 2019

Gwnaeth y Is-bwyllgor Trwyddedu y penderfyniadau canlynol ar 6 Awst 2019, a ddaeth i rym ar unwaith.

Cynghorwyr: D Davies (Cadeirydd), H Thomas and J Cleverly

LIC PAN 05/19

Penderfyniad

Adolygiad o Drwydded Safle dan Adran 51 Deddf Trwyddedu 2003

Ystyriodd yr Is-bwyllgor y cais a chlywed tystiolaeth gan Wasanaeth Gorfodi Mewnfudo'r Swyddfa Gartref a chan Ddeiliad y Drwydded Safle a'i gynrychiolydd.

Roedd yn amlwg bod trosedd o dan Ddeddf Mewnfudo 2016 wedi'i chyflawni yn yr eiddo trwyddedig ar 6 Mawrth 2019, y rhoddwyd dirwy cosb benodedig o £15,000 ar ei chyfer i gwmni deiliad y Drwydded Safle. Canlyniad hyn oedd i Wasanaeth Gorfodi Mewnfudo'r Swyddfa Gartref gynnal cyrch ar y safle y diwrnod hwnnw lle canfuont berson yn gweithio yn y safle a oedd wedi'i anghymwyso rhag gweithio oherwydd ei statws mewnfudo yn y DU dan Ddeddf Mewnfudo 2016. Derbyniodd deiliad y drwydded safle y ffeithiau hyn.

Nododd yr Is-bwyllgor fod Canllawiau'r Swyddfa Gartref yn argymhell y dylent ystyried dirymu'r drwydded hyd yn oed yn achos trosedd fewnfudo gyntaf. Fodd bynnag, roedd yr is-bwyllgor hefyd yn ystyried bod deiliad y Drwydded Safle wedi treulio amser dramor am resymau iechyd pan gyflawnwyd y drosedd a'i fod wedi diswyddo rheolwr y safle a feiodd am gyflogi gweithiwr anghyfreithlon. Serch hynny, roedd deiliad y drwydded safle yn parhau i fod yn gyfrifol am gydymffurfio â Deddf Trwyddedu 2003. Yn ogystal, roedd y gweithiwr anghyfreithlon yn dal i fyw mewn ystafell yn y safle ac roedd dau weithiwr a oedd yn gweithio yn y safle adeg y drosedd yn dal i weithio yno.

Felly, penderfynodd yr Is-bwyllgor atal y drwydded am y cyfnod mwyaf o dri mis ac ychwanegu'r amodau a restrir isod. Roedd gosod teledu cylch cyfyng ym mhob maes paratoi bwyd yn ymosodiad ar breifatrwydd y gweithwyr yn y safle ond roedd yn angenrheidiol ac yn gymesur oherwydd bod y gweithiwr anghyfreithlon yn dal i fyw yn y safle. Mae'r amodau ychwanegol a osodir fel a ganlyn:-

- Bydd deiliad y drwydded safle yn gweithredu system rheoli AD ddigidol lawn lle mae'r holl ddogfennau perthnasol yn cael eu storio ar gyfer pob aelod unigol o staff.
- Bydd deiliad y drwydded safle yn gweithio gyda People Force International, neu asiantaeth debyg arall ac yn cynnal gwiriadau ar wefan y Swyddfa Gartref i wirio dogfennau adnabod, fisa a hawl i weithio.

- Ni fydd unrhyw aelod newydd o staff yn gallu gweithio yn y safle (gan gynnwys unrhyw gyfnod prawf) oni bai ei fod wedi darparu prawf adnabod boddhaol a hawl i weithio.
- Bydd yr holl ddogfennau ar gyfer aelodau staff yn cael eu cadw am gyfnod o 12 mis ar ôl terfynu cyflogaeth a byddant ar gael i'r heddlu, swyddogion mewnfudo neu swyddogion trwyddedu ar gais.
- Mae camerâu cylch cyfyng yn cael eu gosod ym mhob maes paratoi bwyd.

Ymgynghoriad

Gweithredir gan: 6 Awst 2019

Amserlen Weithredu: Ar unwaith
